# Necrotising Enterocolitis (NEC)

Mae'r ysbyty yma yn cymryd rhan mewn astudiaeth i wella ansawdd y gofal acíwt a ddarperir i fabanod a anwyd <32 wythnos o feichiogrwydd sy'n datblygu Necrotising Enterocolitis (NEC). Gelwir y sefydliad sy'n casglu'r data yn NCEPOD.

Mae NCEPOD yn sefydliad cenedlaethol sy'n defnyddio data i wella ansawdd gofal i gleifion y dyfodol yn y Deyrnas Unedig (DU). Rydym yn gwneud hyn drwy gasglu data am gleifion o ysbytai a lleoliadau eraill lle gallant dderbyn gofal.

Am dros 35 mlynedd, mae NCEPOD wedi cynnal astudiaethau yn y DU, ac mae'r rhain wedi arwain at newidiadau yn y ffordd y ddarperir gofal iechyd.

## Sut alla i gael mwy o wybodaeth?



Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â ni drwy'r post, ffôn, neu e-bost:
nec@ncepod.org.uk

## Sut y gallai eich data gael ei ddefnyddio, a sut y gallwch WRTHOD!

Os oedd gennych fabi a ddatblygoedd NEC ac a gafodd ei rhyddhau o'r ysbyty, neu a fu farw, rhwng 1 Ionawr 2024 a 31 Rhagfyr 2025, mae'n bosib y bydd gwybodaeth am ei ofal iechyd yn cael ei chynnwys yn yr astudiaeth yma. Byddyn yn cadw'r wybodaeth yn ddiogel tan ddiwedd yr astudiaeth, pan gaiff ei dileu.

Er mwyn sicrhau ein bod yn cynnwys y babanod cywir, byddwn yn defnyddio data o'r National Neonatal Audit Programme (NNAP). Mae'r NNAP yn casglu gwybodaeth am fabanod sy'n cael eu geni'n gynamserol neu'n mynd yn sâl ac yn angen gofal mewn uned newydd-anedig. Mae eisoes yn casglu gwybodaeth am fabanod â NEC, a fydd yn ein helpu i nodi'r babanod y gellir eu cynnwys yn yr astudiaeth yma.

Os na ydych am i ddata eich babi gael ei ddefnyddio, cysylltwch â ni drwy'r post, ffôn, neu e-bost: mmason@ncepod.org.uk

Er mwyn cyflawni'r gwaith hwn yng Nghymru a Lloegr, rydym wedi cael cefnogaeth Section 251 i gasglu a defnyddio'r wybodaeth yma o dan amodau llym a diolgelwch data gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ar gyngor y Confidentiality Advisory Group (CAG).

Yn ogystal, yn Lloegr, mae'r National Data Opt-Out (NDOO) yn broses sy'n galluogi unigolyn i wrthod i'w gwybodaeth gyfrinachol cael ei defnyddio heblaw am ofal meddygol. Er mwyn sicrhau nad yw argymhellion NCEPOD yn cael eu heffeithio gan amrywiadau a adroddwyd yn nifer yr unigolyn sy'n dewis gwrthod, ni fyddwn yn eithrio data unigolyn sydd wedi dewis gwrthod drwy'r NDOO. Rydym wedi cael yr eithrio hwn gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ar gyngor y CAG.

Fodd bynnag, mae gan unigolion yr hawl i gysylltu â NCEPOD i ofyn i'w data gael ei dynnu a'i ddileu'n barhaol. Gellir gweld ein Hybysiad Preifatrwydd yma.

@ncepod

NCEPOD

Mae **NCEPOD** yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr: **1075588**
ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant: **301938**
Ground Floor, Abbey House
74-76 St John Street, London, EC1M 4DZ
**02072519060**
www.ncepod.org.uk